# CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD
# CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN

**Dyddiad y cyfarfod:** Dydd Mawrth 19 Mawrth 2013

## COFNODION

**Yn bresennol:**
Joyce Watson AC, y Cadeirydd
Simon Thomas AC
Mohammad Asghar AC
William Powell AC

Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF – Papur CPA 01-13M

Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol â chofnodion y cyfarfod diwethaf.

## 3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Yn unol â'r pwynt gweithredu a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, cadarnhaoedd y Cadeirydd bod Al wedi cysylltu â Laura Evans gyda chynnig bod ein Cangen yn gweithredu fel brocer iddi hi gysylltu â sefydliadau addysgol yng Nghymru i ddatblygu cysylltiadau â Nigeria. Ni chafwyd ateb hyd yma fodd bynnag.

## 4. ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU DIWEDDAR

**<u>Adborth ar gyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau diweddar ac unrhyw wybodaeth ddilynol.</u>**

- *Senedd Trinidad a Tobago, 5- 6 Chwefror*

  Nododd y Cadeirydd wrth yr Aelodau ei bod hi, y Llywydd, ynghyd ag Aelodau eraill wedi cael y cyfle i gwrdd â'r ddirprwyaeth hon yn ddiweddar, yn ystod eu hymweliad â'r Cynulliad ble'r oeddent wedi cymryd rhan mewn rhaglen ddeuddydd lawn, oedd yn canolbwyntio ar strwythur pwyllgorau'r Cynulliad, gyda phwyslais penodol ar rôl y pwyllgorau craffu.

- *43[ain]Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, Ynysoedd Falkland, 11-15 Chwefror 2013*

  Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r gynhadledd hon yr oedd hi, ynghyd â William ac Al, wedi bod ynddi fis diwethaf. Roedd y gynhadledd, yn amlwg, wedi canolbwyntio ar y refferendwm diweddar yn yr Ynysoedd Falkland. Fodd bynnag, roedd y gynhadledd wedi caniatáu i'n Cangen godi proffil, ac ymwybyddiaeth o ddatganoli yng Nghymru o fewn cyd-destun thema'r gynhadledd, sef hunan-benderfyniad.
  Byddai adroddiad drafft yn cael ei baratoi ar gyfer ei ystyried gan y Gangen maes o law.

- *Senedd Sri Lanka – 26 Chwefror*

  Nodwyd yr ymweliad diweddar hwn. Yn anffodus, nid oedd dim Aelodau'n gallu cwrdd â'r ddirprwyaeth oherwydd ymrwymiadau gyda Phwyllgorau; fodd bynnag, cafodd y Llywydd gyfle i gyfarch y ddirprwyaeth a oedd yn ymweld. Roedd yr ymweliad yn cynnwys taith o gwmpas y Senedd, cyflwyniad i'r Cynulliad a'i waith a hefyd cyflwyniad gan Bennaeth Cyfathrebu'r Cynulliad, a groesawyd yn wresog, ar weithio'n ddwyieithog.

- *Derbyniad Diwrnod y Gymanwlad / Gŵyl Ddewi, y Senedd 28 Chwefror 2013*

  Soniodd y Cadeirydd am y digwyddiad diweddar hwn yn y Senedd, pan gafodd hi a'r Llywydd, fel Llywydd y Gangen, y cyfle i annerch y gynulleidfa a oedd yn cynnwys ymwelwyr o Gymru ac ymwelwyr rhyngwladol. Nododd y Cadeirydd ddiolchiadau'r Gangen i dîm digwyddiadau'r Cynulliad a phawb a fu'n cynorthwyo gyda'r digwyddiad llwyddiannus hwn.

- *Diwrnod y Gymanwlad, San Steffan 11 Mawrth 2013*

  Roedd dau fyfyriwr - Anna Ashford a Shaan Dassi o Atlantic College wedi cynrychioli ein Cangen yn nathliadau swyddogol y Gymanwlad yn San Steffan ar 11 Mawrth. Cafwyd adborth cadarnhaol o'u profiadau a pharatoir adroddiad ysgrifenedig arnynt yn ystod yr wythnosau nesaf.

## 5. BLAENGYNLLUNIO

**Cyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**

- *24ain Seminar Seneddol y Gymanwlad, Singapore*
  *27 Mai - 1 Mehefin 2013*

  Bu'r Cadeirydd yn trafod â'r Aelodau yr Hysbysiad i'r Gangen, a anfonwyd atynt yr wythnos diwethaf, yn hysbysebu'r cyfle hwn. Gwahoddwyd y Gangen i anfon un Aelod i fynd i'r seminar, a oedd wedi'i anelu at wleidyddion newydd neu wleidyddion sydd newydd eu hethol yn bennaf; fodd bynnag, nododd y rhaglen hefyd y byddai nifer o sesiynau o ddiddordeb i'n Cangen ni yn y seminar, gan gynnwys:

  - ***Yr heriau a wynebir gan Fenywod ym maes Gwleidyddiaeth a'r Senedd***
  - ***Ymgysylltu ag Ieuenctid: Rhaglenni Addysg***
  - ***Y Senedd a'r cyfryngau newydd***
  - ***Hansard a Gwasanaethau Iaith***

  Oherwydd ei bod yn hwyr arnom yn cael hysbysiad ynghylch ein gwahoddiad i ddod i'r seminar, ychydig o amser a oedd ar gael i'r Gangen roi gwybod i drefnwyr y gynhadledd pwy fyddai ein cynrychiolydd, ac i wneud y trefniadau angenrheidiol. Felly gofynnwyd i Aelodau Pwyllgor Gweithredol y Gangen benderfynu pwy fyddai cynrychiolydd y Gangen drwy neges e-bost, unwaith y byddai'r ceisiadau a gyflwynwyd wedi'u dosbarthu.

- *Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad*
  *Johannesburg, De Affrica, 28 Awst – 5 Medi 2013*

  Disgwylwyd am wahoddiad swyddogol gan Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad De Affrica o fewn yr wythnosau nesaf, ond nid oedd dim gwybodaeth bellach i'w hychwanegu ar hyn o bryd.

- 44[ain] Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, Cymru - 2014

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Gangen bod Al yn paratoi papur cwmpasu i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Gangen, fel bod modd i ni, fel Cangen, ddechrau cynllunio ar gyfer y gynhadledd bwysig hon a gynhelir gennym ni y flwyddyn nesaf.

**Ymweliadau – rhai a drefnwyd ac a gynigiwyd**

Dim i'w nodi.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynigiwyd cynnal cyfarfod nesaf Pwyllgor Gweithredol y Gangen ar gyfer
**mis Mai**, a chaiff hyn ei gadarnhau maes o law.

## 7. EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FUSNES ARALL

- *Senedd Ranbarthol Menywod y Gymanwlad (CWP) E- Etholiad*

Dosbarthwyd nodyn ynghylch datganiadau ethol ar gyfer y pum menyw a oedd yn sefyll i gael eu hethol fel Seneddwragedd y Gymanwlad, a fyddai'n cael eu pennu ar 26 Mawrth. Diolchodd y Cadeirydd i'r Gangen am eu cefnogaeth i'w hymgais, a nododd fod pleidleisiau'r Gangen wedi'u bwrw â'r Ysgrifenyddiaeth Ranbarthol.

- *Camau Gweithredu sy'n deillio o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir*

Nododd yr Aelodau hefyd y neges a ddosbarthwyd gan Andrew Tuggey, yn tynnu sylw at ddau gam gweithredu sy'n deillio o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diweddar yng nghynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir yn yr Ynysoedd Falkland.

i) **Sefydlu Pwyllgor Llywio Menywod Rhanbarthol y Gymanwlad**.

Yr argymhelliad oedd y dylai pob cangen enwebu seneddwraig i ymuno â Phwyllgor Llywio arfaethedig Seneddwragedd Rhanbarthol y Gymanwlad er mwyn cefnogi'r Cynrychiolydd Rhanbarthol a fydd yn cael ei hethol yn fuan.

Bu cefnogaeth gyffredinol i'r pwyllgor hwn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn yr Ynysoedd Falkland. Yn amlwg, mae gan y pwyllgor swyddogaeth bwysig o ran codi proffil a hyrwyddo gwaith Seneddwragedd yn ein Rhanbarth.

Cytunodd Aelodau'r Gangen Weithredol â'r cynnig hwn a chefnogwyd y Cadeirydd i fod yn gynrychiolydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar y Pwyllgor Llywio.

**ii) Cynadleddau Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir yn y dyfodol – Cyllido / Ffurf**

Yn dilyn trafodaeth ar y mater hwn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiweddar, roedd y pedwar opsiwn blaenorol, a oedd yn cael eu hystyried, bellach wedi'u symleiddio a'u lleihau i ddau opsiwn: i'w rhoi ar waith yng Nghynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir a drefnir gan Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ddiwedd Mai 2014 dros ddau ddiwrnod, gyda diwrnod diwylliant arall posibl wedi'i hunan-gyllido:

Y ddau opsiwn a ystyrir yw:

**(1) Y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd - y sawl sy'n cynnal y gynhadledd sy'n talu.**
**(2) Bod y cynrychiolwyr yn ariannu eu costau teithio'n ôl a blaen i'r gynhadledd a'u llety gwely a brecwast yng ngwesty'r gynhadledd** (bod y gangen sy'n cynnal y gynhadledd yn neilltuo lle mewn un gwesty ar gyfer y cynrychiolwyr), a bod y gangen sy'n cynnal y gynhadledd yn talu pob cost arall sy'n gysylltiedig â'r gynhadledd.

O gofio bod yr ail opsiwn yn adlewyrchu'r hyn a gynigiwyd gan y Gangen yn flaenorol, roedd y Gangen yn fodlon cefnogi hyn. Felly byddai'r Gangen yn rhoi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth Ranbarthol am y penderfyniad hwn, gan ddeall bod Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal y gynhadledd y flwyddyn nesaf, a'u bod yn edrych ymlaen at hynny, waeth beth fo'r opsiwn y byddai'r Rhanbarth yn penderfynu arno yn y diwedd.

- *Rhwydwaith Rhanbarth Cymru o Ysgolorion y Gymanwlad*

Gofynnwyd i Simon Thomas AC siarad am y gymdeithas hon, yr oedd wedi cwrdd ag aelod ohoni yn ddiweddar, ac wedi trafod ein Cangen a'n cysylltiadau â'r Gymanwlad ag ef.

Roedd yr Aelodau'n cefnogi awgrym Simon y dylai'r Gangen gynnwys y Rhwydwaith Ysgolorion yn nigwyddiadau'r Gangen pan fydd hynny'n bosibl.

- *5ed Adroddiad o Senedd Ieuenctid y Gymanwlad*
  – I'w nodi/ gymeradwyo

  Nodwyd a chymeradwywyd yr adroddiad gan Amy Fox a William Edwards o Goleg Gwent, a fu'n cynrychioli ein Cangen yn y gynhadledd hon yn ddiweddar.

Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen
Mawrth 2013